# Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

| | |
|---|---|
| **Teitl y Gwaith:** | **Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022** |
| **Enw'r Swyddog:** | Julia Huish |
| **Adran:** | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad:** | Adolygwyd Ddiwethaf Medi 2019 |
| **Llofnod:** | |

# Chwe Cham i Sylw Dyledus

Mae Adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) wrth wneud eu penderfyniadau. Mae’r term ‘sylw dyledus’ yn galw am ystyriaeth gytbwys o’r materion. Golyga hyn fod yn rhaid i Weinidogion feddwl am sut y mae’r hyn y maent yn ei wneud, gan gynnwys datblygu deddfwriaeth, yn cysylltu â’r hawliau ac ymrwymiadau yn y CCUHP.




| Cam 1. Beth yw’r darn o waith a’i amcan(ion)? |
|---|
| Mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar bobl o bob oedran, gan gynnwys plant a phobl ifanc, o ganlyniad i’w defnydd nhw eu hunain a defnydd eu rhiant/gofalwr:<br><br>• Ar 31 Mawrth 2017, roedd 4,035 o blant yn derbyn gofal a chymorth o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan eu rhieni. Nodwyd bod 615 o blant yn derbyn gofal a chymorth oherwydd bod eu camddefnydd eu hunain o sylweddau yn broblem;<br><br>• Cafwyd 953 o dderbyniadau yn gysylltiedig â phobl ifanc dan 25 oed â chyflwr yn ymwneud yn benodol ag alcohol yn 2017-18, gostyngiad o 7.2 y cant o’i gymharu â 2016-17;<br><br>• Cafwyd 1,271 o dderbyniadau pobl ifanc dan 25 oed â chyflyrau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon yn 2017-18, gostyngiad o 3.1 y cant ers 2016-17;<br><br>• Yn 2015-16, y flwyddyn ddiweddaraf y cafwyd ystadegau ar ei chyfer, cafwyd gostyngiad o 380 i 332 yn nifer y gwaharddiadau ysgol o ganlyniad i gyffuriau neu alcohol;<br><br>• Cafwyd cynnydd o 9 i 12 o achosion yn nifer y gwaharddiadau parhaol i ddisgyblion o’r ysgol o ganlyniad i gyffuriau neu alcohol, ond cafwyd gostyngiad o 10.1 a 31.3 y cant yn y drefn honno, i nifer y gwaharddiadau am gyfnod penodedig am lai na 5 diwrnod ac am fwy na 5 diwrnod. |

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' (2008-18) wedi dod i ben ar ei ffurf bresennol a datblygwyd Cynllun Cyflawni dilynol ar gyfer 2019-22 i osod y blaenoriaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn y dyfodol.

Mae'r cynllun cyflawni wedi'i seilio ar themâu ein strategaeth camddefnyddio sylweddau flaenorol ac yn nodi sut y bydd y gwaith yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg a nodir yn "Cymru Iachach".

Prif nod y cynllun yw lleihau'r niwed yn sgil cyffuriau ac alcohol i'r unigolyn a'r gymuned ehangach. Mae'n cynnwys cyfres o fesurau poblogaeth a pherfformiad er mwyn pennu llwyddiant y cynllun neu fel arall.

Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys nifer o gamau gweithredu allweddol i Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddo. Fe'u datblygwyd yn dilyn proses cyn ymgynghori, ynghyd â chanfyddiadau o ddadansoddiad cyfraniad o strategaeth 2008-18 (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018) a chanfyddiadau Adolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018).

Ynghyd â'r camau a amlygwyd yn y cynllun, rydym hefyd wedi nodi'r prif feysydd blaenoriaeth yr ydym ni o'r farn bod angen gwaith pellach arnynt er mwyn parhau i wneud cynnydd i'r rheini â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Bydd y meysydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phob rhan o'r Llywodraeth ac â phartneriaid allweddol, yn enwedig y Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

## Cam 2. Dadansoddi'r Effaith

Credir y bydd y cynllun cyflawni yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r dystiolaeth hyd yn hyn yn dangos gostyngiad yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty i blant a phobl ifanc o ganlyniad i ddefnyddio alcohol neu gyffuriau.

Mae nifer o gamau yn y cynllun cyflawni sydd wedi'u targedu'n benodol at blant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i ddarparu cymorth i blant a theuluoedd
- mynediad at wasanaethau pontio pwrpasol i bobl ifanc
- cyfrannu at ddull ysgol gyfan gyda'r nod o wella llesiant emosiynol a meddwl dysgwyr
- gweithio gyda rhaglenni eraill a grwpiau cymunedol sy'n darparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal i sicrhau y gwneir atgyfeiriadau amserol a phriodol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, sicrhau ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a sut i gael gafael ar gymorth priodol
- sicrhau bod systemau ar y cyd ar waith i nodi a chymryd camau atal yn gynnar i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i'r system ofal o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau.

Ar y cyfan, rydym yn rhagweld y bydd y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau (2019-22) yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ac yn gwneud cyfraniad pwysig i gefnogi hawliau plant – yn arbennig mewn cysylltiad ag Erthyglau 3, 6, 12, 19, 24 a 33.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cyfeirio at fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno Isafbris Uned o 50c ar gyfer alcohol - a fydd yn cael ei nodi mewn rheoliadau drafft i'w gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach yn 2019. Er bod cefnogaeth eang ymhlith rhanddeiliaid i gyflwyno isafbris alcohol, mae rhai rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaethau wedi codi pryderon ynghylch canlyniadau anfwriadol posibl yn sgil cyflwyno Isafbris Uned ac effeithiau posibl ar deuluoedd â phlant. Yn benodol, codwyd pryderon ynglŷn ag effeithiau posibl Isafbris Uned ar gyllidebau aelwydydd. Yn fwyaf diweddar, mae'r rhain wedi'u crynhoi yng nghrynodeb Llywodraeth Cymru o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ei lefel arfaethedig o'r Isafbris Uned. Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y canlynol: "Yn benodol, tynnodd nifer o ymatebion sylw at effeithiau cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol ar gyllidebau aelwydydd. Codwyd pryderon penodol y bydd cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yn arwain at ganlyniadau nas bwriadwyd ar gyfer teuluoedd â phlant, os yw rhieni'n dewis parhau i yfed a'u bod yn gorfod talu mwy am alcohol, ac felly gallai fod llai o arian ar gyfer bwyd a thanwydd a chynnydd posibl mewn dyled." [1] Mater arall a godwyd gan randdeiliaid mewn cysylltiad â'r Isafbris Uned oedd y cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n ceisio cael gafael ar wasanaethau cymorth, pan gyflwynir yr Isafbris Uned - a bod "angen adnoddau digonol ar gyfer galw am y gwasanaethau hyn".[2] Bydd y cyllid ychwanegol a ddyrennir i Fyrddau Cynllunio Ardal yn 2018 yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau ar waith pe byddai'r cynnydd posibl mewn galw yn cael ei wireddu.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym wedi sicrhau bod y canlyniadau yr ydym yn ceisio'u cyflawni o ran camddefnyddio sylweddau yn ystod oes y cynllun hwn yn eglur o ran eu cyfraniad at nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n cynnwys cyfres o fesuryddion poblogaeth a pherfformiad er mwyn pennu llwyddiant y cynllun neu fel arall.

Bydd fframweithiau canlyniadau cysylltiedig megis Fframwaith Cyflawni y GIG a'r fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a dangosyddion perfformiad cysylltiedig ar gyfer pob un o'r camau allweddol yn cael eu hystyried wrth fesur llwyddiant y Cynllun Cyflawni (2019-22). Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys camau gweithredu penodol hefyd yn ymwneud â Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal yn archwilio datblygiad fframwaith canlyniadau camddefnyddio sylweddau. Hefyd, byddwn yn treialu Pecyn Cymorth Canlyniadau Plant a Phobl Ifanc yn 2020.

Yn ystod y misoedd yn arwain at ddatblygu Cynllun Cyflawni 2019-22, cynhaliwyd pedwar digwyddiad ymgysylltu (gyda darparwyr gwasanaethau yn y bore a defnyddwyr gwasanaethau yn y prynhawn) yng Nghaerdydd, Casnewydd Llanelli a Llandudno. Cynhaliwyd digwyddiad ychwanegol ym Mhowys ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â digwyddiad i ddefnyddwyr gwasanaethau penodol yn ardal Cwm Taf. Cynhaliwyd digwyddiad penodol hefyd gyda phobl ifanc yng ngorllewin Cymru. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn gyfle i gael cadarnhad bod y meysydd a nodwyd yn feysydd blaenoriaeth posibl yn y Cynllun Cyflawni yn gywir yn fras.

Daeth un o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i'r amlwg mewn sylwadau a gafwyd yn ystod y broses cyn ymgynghori. Mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni erbyn

[1] https://llyw.cymru/gosod-yr-isafbris-am-alcohol

[2] https://llyw.cymru/gosod-yr-isafbris-am-alcohol

hyn, sef yr angen i ddarparu rhagor o **gymorth i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau**. Mynegwyd barn nad oedd digon o wasanaethau cymorth i'r teulu ac efallai nad oedd pobl yn ymwybodol o'r rhai sydd yn bodoli. Yn benodol, rydym yn gwybod trwy'r gwaith ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fod plant sydd wedi'u magu mewn cartrefi lle mae camddefnyddio sylweddau yn broblem, o bosibl yn fwy tebygol o gael canlyniadau andwyol yn ddiweddarach mewn bywyd. Nod y camau yn y Cynllun Cyflawni yw helpu i ganolbwyntio ymdrechion ar sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cydgysylltu'n effeithiol i deuluoedd sydd "ar ffiniau gofal".

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol am 6 wythnos rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2019. Yn rhan o'r broses honno, er nad ystyrir bod fersiwn sy'n addas i blant yn ofynnol, bydd digwyddiadau ymgynghori eraill ar y cynllun yn cael eu cynnal yn benodol gyda phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o bosibl o gamddefnyddio sylweddau a darparwyr gwasanaethau eraill.

Mae'r cynllun yn chwarae rhan uniongyrchol hefyd mewn cyflawni amcanion allweddol Strategaeth Tlodi Plant Cymru gan ei fod yn ceisio cefnogi pobl â phroblemau camddefnyddio sylweddau i gyflogaeth ac yn ceisio gwella'u hiechyd a'u llesiant cyffredinol.

## Cam 3. Sut mae eich darn o waith yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau plant?

Ystyrir bod yr erthyglau canlynol o'r CCUHP yn arbennig o berthnasol i'r cynnig:

**Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant bob amser wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn.**

Mae camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd enfawr sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd blaenoriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio arnynt, gyda rhanddeiliaid allweddol, i gyflawni ein huchelgais o leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Mae angen ymrwymiad pob rhan o'r llywodraeth a phartneriaid allweddol i fynd i'r afael â darparu gwasanaethau rheng flaen i sicrhau ein bod yn cyrraedd ac yn cefnogi pawb sydd mewn angen i gael y lefel iawn o gymorth ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn.

Mae Cynllun Cyflawni (2019-22) yn ystyried cyfrifoldeb cyffredinol Llywodraeth Cymru i blant o dan Erthygl 3 ac yn cynnwys nifer o gamau gweithredu penodol cysylltiedig:

- Byrddau Cynllunio Ardal camddefnyddio sylweddau i weithio gyda rhaglenni eraill a grwpiau cymunedol i ddarparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf
- gwasanaethau arbenigol ar gael i blant a theuluoedd i ddarparu cymorth
- systemau ar y cyd ar waith i nodi'n gynnar a chymryd camau atal i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i'r system ofal o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau
- mynediad at wasanaethau pontio pwrpasol i bobl ifanc
- cyfrannu at ddull ysgol gyfan gyda'r nod o wella llesiant emosiynol a meddwl dysgwyr
- gweithio gyda meddygon teulu a chyrff cynrychiadol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o gamddefnyddio sylweddau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

- gweithio gyda'r holl sefydliadau gofal sylfaenol i sicrhau bod llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau asesu camddefnyddio sylweddau
- gweithio gyda phartneriaid, ynghyd â gweithwyr proffesiynol iechyd a'r cyhoedd, i godi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â lefelau peryglus o ddefnydd alcohol yn ogystal â darparu cyngor eglur ar reoli'r defnydd o alcohol
- gweithio gyda'r diwydiant Alcohol, a phartneriaid eraill i sicrhau y caiff negeseuon yfed yn gyfrifol eu hyrwyddo mewn sefydliadau trwyddedig ac mewn lleoliadau manwerthu
- Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Phartneriaethau Alcohol Cymunedol i ddatblygu mentrau lleol i fynd i'r afael ag yfed o dan oedran cyfreithiol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.**

Mae'r cynllun yn tynnu sylw at sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau yn darparu camau ymyrryd yn gynnar ac atal er mwyn osgoi niwed tymor hwy, cyn iddo ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys atal bod yn agored i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae tystiolaeth gynyddol ryngwladol o'r effaith hirdymor negyddol ar ganlyniadau iechyd a llesiant a all ddeillio o fod yn agored i drawma yn ystod plentyndod cyn 18 oed. Mae'r dystiolaeth hefyd yn cysylltu bod yn agored i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod â chynnydd yn y perygl o fabwysiadu arferion niweidiol i iechyd yn ystod glaslencyndod, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Felly mae camddefnyddio sylweddau yn broblem ac yn ffactor risg. Mae plant y rheini yr effeithir arnynt gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn mwy o berygl o amlygu eu plant eu hunain i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan greu cylch niwed, ac mae angen i ymyrryd yn gynnar ganolbwyntio ar dorri'r cylch hwnnw.

Mae camau yn y Cynllun Cyflawni (2019-22) i gefnogi'r gostyngiad i niwed i iechyd unigolyn, gan gynnwys camau penodol i leihau'r niferoedd sy'n marw o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol:

- Llywodraeth Cymru, Byrddau Cynllunio Ardal a phartneriaid eraill drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyniad o Gyffuriau oherwydd Cyffuriau i roi argymhellion adolygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar waith (ar ôl y Seminarau Consensws Cyffuriau) gyda'r nod o leihau achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau ac achosion nad ydynt yn angheuol
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirsefydlog a phenodol ynglŷn ag effeithiau defnyddio gormod o alcohol yng Nghymru
- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau pontio ar waith i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd
- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau y caiff gwasanaethau eu datblygu gydag ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod staff wedi'u hyfforddi ar gyfer hyn.

**Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i bobl ystyried eu safbwyntiau o ddifrif.**

Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni hwn yn ymateb i'r hyn a ddywedwyd wrthym wrth werthuso'r strategaeth flaenorol (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018) ac Adolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018). Mae hefyd yn ystyried y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses ymgysylltu helaeth cyn ymgynghori, gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl ifanc.

Mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni (2019-22) i gefnogi Erthygl 12:

- gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau eu bod yn cynnwys pobl wrth ddylunio a darparu gwasanaethau
- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod ganddynt gynrychiolaeth gref o ddefnyddwyr gwasanaethau ar eu bwrdd
- Llywodraeth Cymru i roi rhagor o gefnogaeth i ddatblygu'r Mudiad Defnyddwyr Gwasanaethau Cymru Gyfan i sicrhau y cynrychiolir defnyddwyr gwasanaethau yn briodol ar lefel genedlaethol.

**Erthygl 19 – Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.**

Mae camddefnyddio sylweddau yn broblem iechyd enfawr sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Mae'r cynllun wedi'i strwythuro yn ôl pedwar prif nod y strategaeth flaenorol, ac un o'r rhain yw 'cefnogi ac amddiffyn teuluoedd'. Drwy gydol y blaenoriaethau a'r ymrwymiadau a nodir yn y cynllun ceir pwyslais ar gael effaith ***hirdymor*** ar unigolion a theuluoedd.

Un o'r prif feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu a ddaeth i'r amlwg yn y sylwadau a gafwyd yn ystod y broses cyn ymgynghori (ac sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyflawni bellach) yw'r angen i ddarparu mwy o **gymorth i deuluoedd a gofalwyr pobl sy'n camddefnyddio sylweddau**. Mynegwyd barn hefyd nad oedd digon o wasanaethau cymorth i'r teulu ac efallai nad oedd pobl yn ymwybodol o'r rhai a oedd ar gael.

Pan fo cymorth i'r teulu ar gael, soniodd gofalwyr am fuddion rhannu profiadau mewn grwpiau cymorth cymheiriaid, datblygu gwell dealltwriaeth o fod yn gaeth i sylweddau a sut i gefnogi eu hanwyliaid. Dywedodd pobl hefyd fod hyn wedi helpu i wella perthynas ag aelodau'r teulu gan eu bod yn deall eu problemau yn well. Fodd bynnag, mynegwyd barn nad oedd digon o wasanaethau cymorth i deuluoedd ac efallai nad oedd pobl yn ymwybodol o'r rhai a oedd ar gael. Yn benodol, rydym yn gwybod trwy'r gwaith ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, fel y nodir uchod, fod plant sydd wedi eu magu mewn cartrefi lle mae camddefnyddio sylweddau yn broblem o bosibl yn fwy tebygol o gael canlyniadau andwyol yn ddiweddarach mewn bywyd. O ystyried hyn, mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u cydgysylltu'n effeithiol i deuluoedd sydd "ar ffiniau gofal".

Ceir nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni (2019-22) i gefnogi Erthygl 19**:**

- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i blant a theuluoedd i ddarparu cymorth
- Sicrhau bod systemau ar y cyd ar waith i allu nodi'n gynnar a chymryd camau atal i helpu i leihau nifer y plant sy'n mynd i'r system ofal o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau
- Darparu gwasanaethau hawdd cael gafael arnynt ac amserol i rieni â phroblemau camddefnyddio sylweddau er mwyn eu helpu i gadw eu huned deuluoedd ynghyd drwy reoli risg
- Ar y cyd, sicrhau bod gwasanaethau yn hawdd cael gafael arnynt i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal y mae camddefnyddio sylweddau wedi effeithio ar eu bywyd
- Byrddau Cynllunio Ardal a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol i sicrhau ei bod yn hawdd cael gafael ar wasanaethau pontio pwrpasol i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phrofiad o ofal.

**Erthygl 24 – Mae gan blant yr hawl i'r gofal iechyd gorau posibl.**

Mae'r Cynllun Cyflawni wedi'i seilio ar themâu y strategaeth camddefnyddio sylweddau flaenorol ac yn nodi sut y bydd y gwaith yn cyd-fynd â'r Nod Pedwarplyg a nodir yn "Cymru Iachach". Prif nod y cynllun yw lleihau'r niwed y mae cyffuriau ac alcohol yn ei achosi i'r unigolyn a'r gymdeithas ehangach, sy'n cynnwys dirywiad iechyd corfforol a meddwl.

Er bod gwasanaethau iechyd wedi'u dylunio i ymateb i anghenion unigolion sy'n dioddef yn sgil camddefnyddio sylweddau, mae elfennau eraill y tu allan i iechyd sy'n hanfodol i wella iechyd a llesiant yr unigolyn.

Mae llawer o fentrau ar waith - neu wedi'u cynllunio - ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru a fydd yn cefnogi'r agenda camddefnyddio sylweddau gyda buddsoddiad sylweddol o ran adnoddau. Un o'r meysydd lle dangosir hyn yw trwy'r buddsoddiad sy'n cael ei wneud i fwrw ymlaen â '*dull ysgol gyfan'* newydd ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru. Yn rhan o'r '*dull ysgol gyfan'*, bydd pob ysgol yn cefnogi iechyd a llesiant ehangach dysgwyr, a fydd yn ei dro yn helpu i atal materion eraill rhag datblygu neu waethygu, gan gynnwys materion camddefnyddio sylweddau.

Mae'r cynllun wedi'i strwythuro yn unol â phedwar nod craidd y strategaeth flaenorol, ac un o'r rhain yw 'cymorth i unigolion – gwella'u hiechyd a chynorthwyo a chynnal adferiad'.

Yn dilyn sylwadau a gafwyd o'r broses ymgysylltu helaeth cyn ymgynghori, gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys pobl ifanc, nodwyd tri maes blaenoriaeth yn gysylltiedig ag iechyd a llesiant y rheini sy'n camddefnyddio sylweddau.

Mae'r maes blaenoriaeth cyntaf yn ymwneud ag ymateb i **broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd** sy'n gyffredin ymhlith y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae canllawiau ar gael, trwy'r Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau sy'n Cyd-ddigwydd, i drin y problemau hyn ac, yn gyffredinol, ni ddylai cydfodolaeth problem camddefnyddio sylweddau fod yn rheswm dros wadu mynediad i ddefnyddiwr gwasanaeth at driniaeth a argymhellir wedi'i darparu gan wasanaethau iechyd meddwl fel arfer. Mae'r Cynllun Cyflawni yn tynnu sylw at y gwelliant sydd ei angen yn hyn o beth fel bod unigolion â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, yn ogystal â mathau eraill o fod yn gaeth megis gamblo ac ysmygu, yn cael cymorth priodol ac amserol.

Mae'r ail faes blaenoriaeth yn ymwneud â **sicrhau bod gwasanaethau priodol ac ymatebol ar waith ar gyfer camddefnyddio alcohol** cyn gweithredu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018. Codwyd pryderon am effaith bosibl yr isafbris uned ar yfwyr dibynnol a bod angen sicrhau bod y gwasanaethau ar waith i'r rheini sy'n gofyn am gymorth.

Mae'r trydydd maes blaenoriaeth yn ymwneud â **gwella mynediad at wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fo'u hangen arnynt.** Mae'r Cynllun Cyflawni yn egluro ei bod yn hanfodol sicrhau ein bod yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Mae amseroedd aros ar gyfer triniaeth wedi gostwng yn gyson, gyda thros 90% yn 2017/18 yn dechrau triniaeth o fewn 20 diwrnod, gwelliant ar y flwyddyn flaenorol o dros 4 pwynt canran. Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau cynnydd yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd ar gael, gan dalu sylw penodol i ddarparu allgymorth i grwpiau agored i niwed a gwella cysylltiadau â gwasanaethau gofal sylfaenol, yn arbennig meddygon teulu. Rydym yn gwybod y gall cael gafael ar y gwasanaethau fod yn her i'r rheini sy'n byw yn ein cymunedau gwledig a byddwn yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal perthnasol i ganolbwyntio ymdrechion mewn ardaloedd gwledig i wella hyn, yn arbennig drwy allgymorth, integreiddio â gofal sylfaenol a defnyddio technoleg ddigidol.
Wrth i broblemau pobl fynd yn fwyfwy cymhleth, gan effeithio ar eu gallu i gael triniaeth ac adfer, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull person cyfan, yn seiliedig ar gryfderau ac arfer sydd wedi'i lywio gan drawma. Byddwn yn cryfhau ein gwaith amlasiantaeth a'n gwaith cynllunio gofal i sicrhau y diwellir anghenion pobl. Ar ôl i bobl ddechrau triniaeth mae'n bwysig eu bod yn cael y driniaeth iawn ar yr amser iawn a'u bod yn cael dewisiadau.

Mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni (2019-22) i gefnogi Erthygl 24:

- gweithio gyda phartneriaid, ynghyd â gweithwyr proffesiynol iechyd a'r cyhoedd, i godi ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â lefelau peryglus o yfed alcohol yn ogystal â darparu cyngor eglur ar reoli'r defnydd o alcohol
- gweithio gyda meddygon teulu a chyrff cynrychiadol i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o gamddefnyddio sylweddau a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Bydd LIC yn parhau i weithio gyda Choleg Brenhinol y Meddygon Teulu i annog meddygon teulu (a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill) i ymgymryd â thystysgrifau Rhan 1 a 2 y Coleg ar gamddefnyddio sylweddau ac arbenigo ym maes camddefnyddio sylweddau
- trwy weithio gyda phob sefydliad gofal sylfaenol, llunio llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i wasanaethau asesu camddefnyddio sylweddau
- dylai pob Bwrdd Cynllunio Ardal ystyried sut y gwneir gwaith allgymorth rhagweithiol yn eu hardaloedd er mwyn targedu grwpiau anodd eu cyrraedd efallai nad ydynt yn cael gafael ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau
- sicrhau y cyflawnir Fframwaith Triniaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau, gyda'r nod o wella gweithio ar y cyd â gwasanaethau iechyd meddwl a chefnogi'n well y rheini sydd â phroblemau sy'n cyd-ddigwydd
- gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau yn hawdd cael gafael arnynt i bawb â nodweddion gwarchodedig
- gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal i weithredu profion arferol y gellir dewis optio allan ohonynt (profion smotiau gwaed sych a gwythïen-bigiad) ar gyfer feirysau a gludir yn y

gwaed (hepatitis B, hepatitis C ac HIV) a brechiad hepatitis B i bawb sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau gan gynnwys gwasanaethau trothwy isel a darparwyr fferylliaeth gymunedol

- pob Bwrdd Cynllunio Ardal i ystyried sut y gall cysylltiadau a mynediad at brosiectau cymunedol a gweithgareddau i ddifyrru chwarae rhan mewn iechyd a llesiant y rheini sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- Llywodraeth Cymru i adolygu ein targed ar gyfer amseroedd aros i sicrhau ei fod yn briodol ac yn arwain at well canlyniadau a monitro cynnydd tuag at y targed hwn
- Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda rhaglenni a grwpiau cymunedol eraill sy'n darparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal, e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, gyda'r nod o sicrhau atgyfeiriadau amserol a phriodol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau; ac y codir ymwybyddiaeth o'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ac o ble i gael gafael ar ffynonellau cymorth
- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau arbenigol ar gael i blant a theuluoedd i ddarparu cymorth
- Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau bod gwasanaethau pontio ar waith i bobl ifanc a'u teuluoedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys problemau sy'n cyd-ddigwydd
- Sicrhau ar y cyd bod gwasanaethau ar gael yn rhwydd i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar eu bywyd
- Byrddau Cynllunio Ardal a Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol i sicrhau bod gwasanaethau pontio pwrpasol ar gael yn rhwydd i bobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau a phrofiad o ofal.

**Erthygl 33 – Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau niweidiol.**

Gall camddefnyddio sylweddau arwain at fathau amryfal o niwed, i'r unigolyn ac i'r rhai sydd mewn cysylltiad uniongyrchol ac anuniongyrchol â'r unigolyn sy'n defnyddio sylweddau, megis aelodau'r teulu neu'r gymdeithas gyfan. Gall y niwed hwn gynnwys canlyniadau andwyol i'r gymuned ehangach o ran gweithgareddau troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rydym yn gwybod bod pobl sy'n cyflenwi cyffuriau yn effeithio'n sylweddol ar y rheini y maent yn eu cyflenwi a'r gymuned ehangach, yn bennaf o ganlyniad i'r trais sy'n gysylltiedig â gangiau yn aml.

Mae nifer o gamau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni (2019-22) i gefnogi Erthygl 33:

- Llywodraeth Cymru a Byrddau Cynllunio Ardal i weithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu i osod amcanion allweddol i leihau'r cyffuriau anghyfreithlon a'r Sylweddau Seicoweithredol Newydd sydd ar gael a chyhoeddi canlyniadau llwyddiannus, yn arbennig o ran gwaith ar Linellau Cyffuriau
- cefnogi landlordiaid yng Nghymru i nodi a chefnogi gweithgareddau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gangiau/llinellau cyffuriau. Yn benodol, gweithio gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru i sicrhau bod gwasanaethau yn gwbl ymwybodol o dueddiadau'r gweithgareddau a'r arferion gorau wrth atal ac ymyrryd.

Ac eithrio Erthygl 33, gall y Cynllun Cyflawni (2019-22) gyfrannu at ddarparu'r Erthyglau a nodir uchod dim ond yn rhan o ystod o ymyriadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

O ran Erthygl 33, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ddibynnol ar ymateb Llywodraeth y DU i sicrhau y cyflawnir yr hawl hwn gan fod cyfrifoldeb dros gyfreithloni a throseddoli sylweddau wedi'i gadw gan Lywodraeth y DU.

**Cam 4. Cynghori'r Gweinidog a phenderfyniad y Gweinidogion**

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei hysbysu bod yr asesiad o'r effaith hwn wedi'i gwblhau a bod y gwaith yn gyson â gofynion CCUHP, yn arbennig yr erthyglau a nodir uchod.

**Cam 5. Cofnodi a chyfathrebu'r canlyniad**

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn dilyn y cyfnod hwnnw a chyn cyhoeddi'r cynllun cyflawni terfynol.

Bydd y CRIA yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r Asesiad Effaith Integredig.

**Cam 6. Ailystyried y darn o waith yn ôl yr angen**

Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei adolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn cael ei ailystyried cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni terfynol.

**<u>Cyllidebau</u>**

| **O ganlyniad i gwblhau'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA), a fu unrhyw effaith ar gyllidebau?**<br><br>Mae'n bwysig pan wneir unrhyw newidiadau i gynlluniau gwario, gan gynnwys pan wneir dyraniadau ychwanegol, fod hyn wedi ei asesu a'i dystiolaethu fel rhan o broses y CRIA. | |
|---|---|
| **Rhowch fanylion:**<br><br>Ni fu unrhyw effaith ar y gyllideb o ganlyniad i'r CRIA hwn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi bron £53 miliwn yn yr agenda hon. Mae £25.063 miliwn o'r gyllideb hon yn ariannu'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal (trwy'r Gronfa | |

| |
|---|
| Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau (SMAF)) sydd, trwy bartneriaeth asiantaethau allweddol, yn comisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer eu hardal. O'r £25.063 miliwn o gyllideb refeniw y SMAF ledled Cymru, caiff £2.75 miliwn o hyn ei neilltuo i'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.<br><br>Caiff £18.934 miliwn ei neilltuo i wasanaethau camddefnyddio sylweddau o fewn dyraniad disgresiwn Byrddau Iechyd. |

**Monitro ac adolygu**

| | |
|---|---|
| **A oes angen i ni fonitro / adolygu'r cynnig?** | **Oes** |
| **Os yw'n berthnasol: pennwch ddyddiad yr adolygiad** | **I'w ystyried a'i adolygu'n barhaus, ond yn arbennig cyn cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni terfynol yn ddiweddarach yn 2019.** |

Gweler y dudalen nesaf ar gyfer Rhestr Gryno o erthyglau CCUHP

